# THE PLIGHT OF REFUGEES / TYNGED FFOADURIAID

## Refugees' Country of Origin, 2007
## Gwlad Haniad Ffoadurіad, 2007




## Q & A

### Who is a refugee?

According to UNHCR, a refugee is someone who: "owing to a well-founded fear of being **persecuted** for reasons of race, religion, nationality, membership of a particular social group, or political opinion, is **outside the country of their nationality**", and is unable or unwilling to seek their country's protection. Today, refugee status can also be given to people who have been forced to move due to floods and other disasters.

### So what's an asylum seeker?

People who have fled their home country and are **in the process of applying** for refugee status are called asylum seekers. Their application may be accepted or turned down, based on the evidence they present to a special committee. If they fail to convince the committee that they have a good reason not to return home, they must return immediately. The process can take several months for each asylum seeker.

### Is a refugee the same as an immigrant?

No. The term 'refugee' refers to a special type of immigrant; one who has been forced to leave their home. An immigrant is someone who has freely crossed international boundaries for lifestyle reasons. This could be a Welsh couple wishing to spend their retirement in the sun in Spain, or it could be an Eastern European worker wishing to contribute to the British economy and save more money than they could at home.

### Do refugees ever return home again?

Yes. Most refugees do not wish to remain in a country that they were forced to move to: family, friends and an accustomed way of life will usually be back in their country of origin. Many refugees plan to – and do – return home, once a conflict in their home country has ended. Others choose to continue living in their country of refuge for the rest of their lives.

## CWESTIYNAU AC ATEBION

### Pwy sy'n ffoadur?

Yn ôl Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, y diffiniad o ffoadur yw rhywun sydd: "oherwydd ofn rhesymol y bydd yn dioddef **erledigaeth** am resymau sy'n ymwneud â hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol arbennig neu farn wleidyddol, **y tu allan i wlad ei genedligrwydd**", ac sy'n methu â cheisio, neu'n amharod i geisio gwarchodaeth y wlad honno. Heddiw gellir rhoi statws ffoadur hefyd i bobl a orfodwyd i symud oherwydd llifogydd a thrychinebau eraill.

### Felly beth yw ceisiwr lloches?

Caiff pobl sydd wedi ffoi o'u mamwlad ac sydd **wrthi'n gwneud cais** am statws ffoadur eu galw'n geiswyr lloches. Gall eu cais gael ei dderbyn neu'i wrthod, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir ganddynt i bwyllgor arbennig. Os byddant yn methu ag argyhoeddi'r pwyllgor bod ganddynt reswm da dros beidio â dychwelyd adref, mae'n rhaid iddynt ddychwelyd ar unwaith. Gall y broses gymryd misoedd lawer i bob ceisiwr lloches.

### A yw ffoadur yr un fath â mewnfudwr?

Nac ydyw. Mae'r term 'ffoadur' yn cyfeirio at fath arbennig o fewnfudwr; un sydd wedi cael ei orfodi i adael ei gartref. Mae mewnfudwr yn rhywun sydd wedi dewis croesi ffiniau rhyngwladol am resymau sy'n ymwneud â ffordd o fyw. Gallai fod yn gwpl o Gymru sy'n dymuno ymddeol i'r haul yn Sbaen, neu weithiwr o Ddwyrain Ewrop sy'n dymuno cyfrannu at economi Prydain a chynilo mwy o arian nag y gallai yn ei famwlad.

### A yw ffoaduriaid byth yn dychwelyd adref eto?

Ydynt. Nid yw'r rhan fwyaf o ffoaduriaid yn dymuno aros mewn gwlad y cawsant eu gorfodi i symud iddi: bydd teulu, ffrindiau a ffordd gyfarwydd o fyw yn eu haros fel arfer yn y wlad y maent yn hanu ohoni. Mae nifer o ffoaduriaid yn bwriadu dychwelyd adref – ac yn gwneud hynny, unwaith y bydd gwrthdaro yn eu mamwlad wedi dod i ben. Mae eraill yn dewis parhau i fyw yn y wlad y cawsant loches ynddi am weddill eu bywydau.

## THE ROLE OF THE UNITED NATIONS

Founded in 1950, the **United Nations High Commissioner for Refugees (UNHCR)** is the UN agency which supports refugees and other displaced people across the world. Its role is to lead and co-ordinate international action to protect refugees and resolve refugee problems. In doing so, it often works with the Red Cross and the Red Crescent. In January 2007, UNHCR reported that over 21 million people, including people forced to move within their own country's borders (the internally displaced), fell under its mandate. UNHCR was awarded the Nobel Peace Prize in 1954 and 1981.

The United Nations was also behind the **Universal Declaration of Human Rights**, which in 1948 stated that:

*"Everyone has the right to seek and enjoy in other countries asylum from persecution."*

This was followed in 1989 by the **Convention on the Rights of the Child**, which added that children who come into a country as refugees should have the same rights as children born in that country.

## RÔL Y CENHEDLOEDD UNEDIG

**Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR),** a sefydlwyd ym 1950, yw'r asiantaeth o fewn y Cenhedloedd Unedig sy'n rhoi cymorth i ffoaduriaid a phobl eraill sydd wedi'u dadleoli ledled y byd. Ei rôl yw arwain a chydlynu camau gweithredu i warchod ffoaduriaid a datrys problemau ffoaduriaid. Wrth wneud hynny, mae'n aml yn cydweithio â'r Groes Goch a'r Cilgant Coch. Ym mis Ionawr 2007, hysbysodd UNHCR fod 21 miliwn o bobl, gan gynnwys pobl a oedd wedi'u gorfodi i symud o fewn ffiniau'u gwledydd eu hunain (y rhai sydd wedi'u dadleoli'n fewnol), yn gymwys i gael cymorth ganddo. Dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel i UNHCR ym 1954 a 1981.

Y Cenhedloedd Unedig hefyd a gyhoeddodd y **Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol,** a ddatganodd y canlynol ym 1948:

*"Y mae gan bawb hawl i geisio ac i gael mewn gwledydd eraill noddfa rhag erledigaeth."*

Dilynwyd hyn ym 1989 gan y **Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**, a ychwanegodd y dylai fod gan blant sy'n dod i mewn i wlad fel ffoaduriaid yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.






## Since 2001 the UN has officially marked 20 June as World Refugee Day, aiming to raise awareness and promote action for millions of refugees across the globe.

With conflicts to be found on every continent, many people find that they can no longer live at home without fear of danger to their lives. Continuing strife in the Congo, Afghanistan, Iraq, Gaza, Somalia and elsewhere means that the numbers of refugees are still high. There has been much talk about refugees – but what's the situation on the ground really like?

### THE PEOPLE BEHIND THE STATISTICS

Men, women and children become refugees for a variety of reasons. Civil and international war is a major cause of **displacement** (having to leave your home), but disasters such as drought, flooding and hurricanes are common reasons too. The **United Nations High Commissioner for Refugees (UNHCR)** last recorded that there are 8.4 million refugees worldwide – people who have fled to another country (*see left panel for full definition*).

### Refugee Perceptions

Negative media stories can fuel a misunderstanding of refugees and their reasons for movement, often leading to prejudice and racist views. Some believe that refugees make up tales of a hard life back home, in order to live off state benefits in wealthier countries. In fact, refugees can only stay in a new country if they can prove that they have a well-founded fear of persecution or endangerment if they return home.

### Where Do Refugees Go?

Although some people think that refugees choose to go mainly to wealthy countries, the truth is that the large majority live in close proximity to their home country. This means that countries next to those experiencing conflict take leading roles in protecting displaced people. Countries in Africa and the Middle East take on the most refugees at present. For example, refugees from the Darfur region of Sudan have fled to nearby Chad and the Central African Republic. The UK is home to fewer than 3% of the world's refugees.

### Standards of Living

Refugees' standards of living vary greatly, depending on the country in which they are allowed to stay. By law, a government that gives someone refugee status must then provide proper protection and support for them. But life is often hard for refugees in developing countries. For example, thousands of Congolese refugees living in camps in Uganda, Burundi, Tanzania and Rwanda have to make do in crowded tents – a situation that allows diseases like tuberculosis to spread rapidly. Although refugees in richer countries in Europe and North America do have a higher standard of living and some legal rights, many still live in relative poverty. And refugees in the UK are not allowed to vote in general elections.

## Ers 2001, mae 20 Mehefin wedi'i ddynodi'n swyddogol gan y Cenhedloedd Unedig yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Ffoaduriaid, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hybu gweithredu ar ran miliynau o ffoaduriaid ledled y byd.

Gyda gwrthdaro'n digwydd ar bob cyfandir, mae nifer o bobl yn canfod nad ydynt yn gallu byw yn eu cartrefi mwyach heb ofni bod eu bywydau mewn perygl. Mae trafferthion parhaus yn y Congo, Affghanistan, Irac, Gaza, Somalia ac mewn rhannau eraill o'r byd yn golygu bod niferoedd y ffoaduriaid yn dal i fod yn uchel. Bu llawer o sôn am ffoaduriaid – ond sut beth yw'r sefyllfa ar lawr gwlad mewn gwirionedd?

### Y BOBL Y TU ÔL I'R YSTADEGAU

Daw dynion, menywod a phlant i fod yn ffoaduriaid am amrywiaeth o resymau. Mae rhyfel cartref a rhyfel rhyngwladol ymhlith prif achosion **dadleoli** (gorfod gadael eich cartref), ond mae trychinebau megis sychder, llifogydd a chorwyntoedd yn rhesymau cyffredin hefyd. Mae'r ffigyrau diweddaraf a gofnodwyd gan **Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR)** yn dynodi bod 8.4 miliwn o ffoaduriaid ledled y byd – pobl sydd wedi ffoi i wlad arall (*gweler y panel chwith am ddiffiniad llawn*).

### Canfyddiadau am Ffoaduriaid

Gall straeon negyddol yn y cyfryngau hybu camddealltwriaeth am ffoaduriaid a'u rhesymau dros symud, sy'n aml yn arwain at ragfarn a safbwyntiau hiliol. Mae rhai'n credu bod ffoaduriaid yn ffugio storïau am fywyd caled yn ôl gartref er mwyn gallu byw ar fudd-daliadau'r wladwriaeth mewn gwledydd cyfoethocach. Yn wir, nid yw ffoaduriaid ond yn gallu aros mewn gwlad newydd os gallant brofi bod ganddynt reswm da dros ofni cael eu herlid neu'u rhoi mewn perygl pe baent yn dychwelyd adref.

### I Ble Mae Ffoaduriaid yn Mynd?

Er bod rhai pobl yn credu bod ffoaduriaid yn dewis mynd i wledydd cyfoethog yn bennaf, y gwir amdani yw bod y mwyafrif helaeth yn byw'n agos iawn at eu mamwlad. Golyga hyn fod gwledydd drws nesaf i'r rheiny sy'n profi gwrthdaro'n cyflawni rolau blaenllaw wrth ddiogelu pobl a ddadleolwyd. Gwledydd yn Affrica a'r Dwyrain Canol sy'n derbyn y mwyaf o ffoaduriaid ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae ffoaduriaid o ranbarth Darfur yn Swdan wedi ffoi i wledydd cyfagos Chad a Gweriniaeth Canol Affrica. Mae'r DU yn gartref i lai na 3% o ffoaduriaid y byd.

### Safonau Byw

Mae safonau byw ffoaduriaid yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y wlad y caniateir iddynt aros ynddi. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i wlad sy'n rhoi statws ffoadur i rywun fynd ati wedyn mewn modd priodol i'w warchod a rhoi cymorth iddo. Ond mae bywyd yn aml yn anodd i ffoaduriaid mewn gwledydd datblygol. Er enghraifft, mae'n rhaid i filoedd o ffoaduriaid o'r Congo sy'n byw mewn gwersylloedd yn Uganda, Burundi, Tanzania a Rwanda fodloni ar bebyll gorlawn – sefyllfa sy'n galluogi afiechydon megis tiwberciwlosis i ledu'n gyflym. Er bod gan ffoaduriaid mewn gwledydd cyfoethocach yn Ewrop a Gogledd America safon byw uwch a rhai hawliau cyfreithiol, mae llawer yn dal i fyw mewn tlodi cymharol. Ac nid yw ffoaduriaid yn y DU yn cael pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol.

## HISHAM: A CASE STUDY

### If we were to believe much of the British press, then all refugees who arrive in this country come for one thing: access to our benefits system.

### Hisham, a 28-year-old doctor, came to the UK in 1999 from Iraq.

Before he fled Iraq, Hisham had just completed his medical degree and was a trained doctor. During his time studying, Hisham mixed his love of medicine with his interest in politics. He was a member of the National Union of Students. Hisham spoke openly about the need for reform in Iraq.

However, his speeches did not go unnoticed. The security forces eventually warned him that if he continued to make such statements, he would have to face the consequences. Hisham had angered relatives of Saddam Hussein, then President of Iraq, who had heard some of his comments. Despite agreeing not to speak out any longer, he was arrested and spent 3 months in prison, being tortured.

Hisham, however, was one of the lucky ones. His family managed to buy his release from prison. As soon as he was released, they paid traffickers to smuggle him out of Iraq and to the UK. The journey took over 2 months.

Having applied for asylum at the airport on his arrival in the UK, he was dispersed to Newcastle. Once settled in the area, he continued his studies, to re-qualify as a British doctor. After 2 years and 10 months, Hisham received refugee status. In August 2001, he also passed the PLAB (Professional and Linguistic Assessments Board) test which made him eligible to apply for work placements in the UK.

Since qualifying, Hisham has worked as a doctor in north-east England and has had papers published in medical and non-medical journals. He is now training to be a surgeon.

Hisham regularly thinks back to his past and reflects on how lucky he is to have survived his experiences. Asked about his life, Hisham shows no bitterness and believes you should take life as it comes and continue to move on as a person.

*Reproduced with permission of the North of England Refugee Service – www.refugee.org.uk.*

## HISHAM: ASTUDIAETH ACHOS

### Pe baem yn credu llawer o'r wasg ym Mhrydain, yna mae'r holl ffoaduriaid sy'n cyrraedd y wlad hon yn dod am un rheswm yn unig: i gael mynediad at ein system budd-daliadau.

### Daeth Hisham, meddyg 28 mlwydd oed, i'r DU ym 1999 o Irac.

Cyn iddo ffoi o Irac, roedd Hisham newydd gwblhau ei radd feddygol ac roedd yn feddyg hyfforddedig. Yn ystod yr amser y bu'n astudio, bu Hisham yn cymysgu'i hoffter am feddygaeth â'i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Roedd yn aelod o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Siaradai Hisham yn agored am yr angen am ddiwygio yn Irac.

Fodd bynnag, chafodd ei areithiau mo'u hanwybyddu. Yn y pen draw cafodd ei rybuddio gan y lluoedd diogelwch y byddai'n rhaid iddo wynebu'r canlyniadau pe bai'n parhau i wneud datganiadau o'r fath. Roedd Hisham wedi cythruddo perthnasau Saddam Hussein, Arlywydd Irac ar y pryd, a oedd wedi clywed rhai o'i sylwadau. Er iddo gytuno i beidio â thraethu'i farn mwyach, cafodd ei arestio ac fe dreuliodd 3 mis yn y carchar, gan gael ei arteithio.

Roedd Hisham, serch hynny, yn un o'r rhai ffodus. Llwyddodd ei deulu i dalu am ei ryddhau o'r carchar. Cyn gynted ag y cafodd ei ryddhau, fe dalon nhw arian i smyglwyr er mwyn iddynt ei smyglo allan o Irac ac i'r DU. Fe gymerodd y daith dros 2 fis.

Ac yntau wedi gwneud cais am loches yn y maes awyr pan gyrhaeddodd y DU, fe'i hanfonwyd i Newcastle. Unwaith yr oedd wedi ymgartrefu yn yr ardal, fe barhaodd â'i astudiaethau, er mwyn ailgymhwyso'n feddyg ym Mhrydain. Ar ôl 2 flynedd a 10 mis, rhoddwyd statws ffoadur i Hisham. Ym mis Awst 2001, fe lwyddodd hefyd ym mhrawf y PLAB (Y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol) a oedd yn ei wneud yn gymwys i ymgeisio am swyddi yn y DU.

Ers cymhwyso, mae Hisham wedi gweithio fel meddyg yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ac mae papurau ganddo wedi cael eu cyhoeddi mewn cyfnodolion meddygol a chyfnodolion eraill. Mae bellach yn hyfforddi fod yn llawfeddyg.

Mae Hisham yn aml yn meddwl am ei orffennol ac yn ystyried mor lwcus ydyw i fod wedi byw trwy'i brofiadau. Pan fo pobl yn ei holi am ei fywyd, nid yw Hisham yn dangos unrhyw chwerwder ac mae'n credu y dylai pobl dderbyn bywyd fel y daw a dal i gamu ymlaen fel person.

*Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Gwasanaeth Ffoaduriaid Gogledd Lloegr – www.refugee.org.uk.*

## MOVE BEYOND THE HEADLINES…

Do more than read the headlines! Refugee situations have a multiplicity of causes and consequences. To find out more about the complex decisions that affect peoples' lives, you can explore the websites below and gain a more informed understanding of refugees and their plight.

www.unhcr.org/publ.html
includes UNHCR's various publications, detailing refugee situations across the globe

www.refugeestories.org
takes an in-depth look at the stories of refugees who have recently arrived in the UK

www.refugeecouncil.org.uk
is the largest refugee agency in the UK, providing advice to asylum seekers and refugees

www.rsc.ox.ac.uk
takes a more scholarly approach to refugee studies. It has numerous free up-to-date publications that outline the major issues concerning refugees, governments, non-governmental organisations and the general public

www.welshrefugeecouncil.org
works with those refugees and asylum seekers who come to Wales

## EDRYCHWCH Y TU DRAW I'R PENAWDAU…

Gwnewch fwy na darllen y penawdau! Mae llu o achosion a chanlyniadau'n gysylltiedig â sefyllfaoedd ffoaduriaid. I gael gwybod mwy am y penderfyniadau cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl, gallwch archwilio'r gwefannau isod a chael dealltwriaeth fanylach am ffoaduriaid a'u tynged.

www.unhcr.org/publ.html
yn cynnwys amryw gyhoeddiadau UNHCR, sy'n manylu ar sefyllfaoedd ffoaduriaid ledled y byd

www.refugeestories.org
yn bwrw golwg fanwl ar hanesion ffoaduriaid sydd wedi cyrraedd yn y DU yn ddiweddar

www.refugeecouncil.org.uk
yw'r asiantaeth ffoaduriaid fwyaf yn y DU, yn cynnig cyngor i geiswyr lloches a ffoaduriaid

www.rsc.ox.ac.uk
yn defnyddio dull mwy ysgolheigaidd o astudio ffoaduriaid. Mae'n cynnwys nifer o gyhoeddiadau cyfoes sy'n disgrifio'r materion pwysig sy'n ymwneud â ffoaduriaid, llywodraethau, cyrff anllywodraethol a'r cyhoedd

www.welshrefugeecouncil.org
yn gweithio gyda'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches hynny sy'n dod i Gymru


CEWC CYMRU www.cewc-cymru.org.uk

CEWC-CYMRU, TEMPLE OF PEACE / Y DEML HEDDWCH, CATHAYS PARK / PARC CATHAYS, CARDIFF / CAERDYDD CF10 3AP
TEL / FFÔN (029) 2022 8549 FAX / FFACS (029) 2064 0333 E-MAIL / E-BOST cewc@wcia.org.uk